

# Cylchlythyr Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys

Gaeaf 2022/23



## Neges gan y Cadeirydd



Mae Cadeirydd yr RPB, Kirsty, yn rhoi ei chrynodeb o newyddion y Bwrdd. Yn ei neges mae'n amlinellu gwaith allweddol a heriau'r bwrdd yn y misoedd nesaf gan gynnwys adolygu'r Strategaeth Iechyd a Gofal.

**Gallwch ei weld ar-lein yma**

## Campws yr Academi yn agor

Agorwyd campws cyntaf Academi Iechyd a Gofal Powys, yn Ysbyty Gymunedol Bronllys, yn swyddogol ar 13 Hydref gan Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Bydd y cyfleuster newydd, gwerth £1.6 miliwn, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac aelodau'r RPB, yn helpu i wella mynediad at hyfforddiant iechyd a gofal cymdeithasol yn y sir ac yn annog mwy o bobl i ymgymryd â gyrfa yn y sector.

Mae Campws Bronllys yn cynnwys canolfan hyfforddi, man dysgu awyr agored newydd, a gofod byw addasol. Dim ond y dechrau yw'r cynlluniau ar gyfer academi o'r radd flaenaf, ledled y sir, gyda safleoedd cangen i'w datblygu yn ystod y pum mlynedd nesaf.

**Darllen y stori'n llawn yma**



## BPRh yn fyr

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys (BPRh) yn dod â nifer o gynrychiolwyr gwasanaethau cyhoeddus ynghyd, megis Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Cyngor Sir Powys a'r Trydydd Sector. Mae'r bwrdd yn cwrrd bob dau fis ac yn cynnwys aelodau sy'n cynrychioli buddiannau dinasyddion a gofalwyr di-dâl.

Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am Nawdd Integreiddio Rhanbarthol Llywodraeth Cymru i gefnogi amrywiaeth eang o fentrau megis Cysylltwyr Cymunedol, Gwasanaeth Cyfeillio Powys a Gofalwyr Ifanc. .

I ddysgu mwy am y BPRh, edrychwch ar: [www.powysrpb.org](http://www.powysrpb.org)

## Cadeirydd ac Is-gadeiryddion newydd



Yn y llun o'r chwith i'r dde: Cllr Sian Cox, Kirsty Williams, Clair Swales,

Ymgwymerodd Kirsty Williams, Is-gadeirydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys â rôl Cadeirydd RPB yn ffurfiol ym mis Tachwedd. Mae'r Cynghorydd Sian Cox, Aelod Cabinet Cyngor Sir Powys ar gyfer Powys sy'n Gofalu yn parhau i fod yn Is-Gadeirydd ac yn ymuno â hi mae Clair Swales, Prif Weithredwr Dros Dro Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO)

Mae Cadeirydd blaenorol yr RPB, Carl Cooper yn mynd â'i brofiad partneriaeth i'w rôl newydd fel Cadeirydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Dymuniadau gorau yn y rôl newydd Carl.

# Siarter Ymgysylltu

Mae aelodau RPB Powys, wedi mabwysiadu'r siarter genedlaethol newydd sy'n nodi'r ymrwymadau allweddol i'r RPB ynglŷn â chyfranogiad ystyrion dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, trydydd sector ac aelodau darparwr ar y byrddau partneriaeth.

Mae'r ymrwymadau'n seiliedig ar egwyddorion cyd gynhyrchu a llais fel a nodir yn Neddff Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Y nod yw sicrhau bod y byrddau'n gweithio mewn ffordd gynhwysol sy'n parchu ac yn hyrwyddo rôl a chyfraniad pob aelod o'r bwrdd, a bod cymorth priodol ar waith i'r aelodau, fel y gallant lywio, dylanwadu a bod yn rhan o'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau'n effeithiol.

Fodd bynnag, maent yn ymwybodol bod angen i'r egwyddorion o'r Siarter gysylltu â gwasanaethau, polisïau a gweithdrefnau i newid tystiolaeth o ganlyniad i gyd gynhyrchu.

Mae cyfraniad ein dinasyddion ac aelodau gofalwyr ar y Bwrdd a'i bartneriaethau nid yn unig yn llywio gwaith ac yn ffurfio penderfyniadau ond mae hefyd yn ffordd well o ddeall 'beth sy'n bwysig' i bobl.



Wedi tair blynedd fel aelod gofalwr ar y bwrdd mae'n bryd i Meriona drosglwyddo'r baton. Diolch Meriona am eich amser, egni ac angerdd i wneud newidiadau cadarnhaol.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn dod yn aelod gofalwr neu awgrymu rhywun a allai fod yn awyddus i ymgymryd â'r rôl cysylltwch ag [Andrew.davies@pavo.org.uk](mailto:Andrew.davies@pavo.org.uk)

## Lles Gogledd Powys

Mae llawer wedi bod yn digwydd gyda Rhaglen Lles Gogledd Powys yn ystod y misoedd diwethaf. Mae hon yn brif raglen o dan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac i weld y newyddion diweddaraf ewch i [www.powyswellbeing.wales](http://www.powyswellbeing.wales)



**CADW  
MEWN  
CYSYLLTIAD**

Eisiau gwybod mwy am sut mae'r BPRh yn gweithio a'r hyn mae'n ei wneud yn eich ardal chi?



[prpb@powys.gov.uk](mailto:prpb@powys.gov.uk)



[@PowysRPB](https://twitter.com/PowysRPB)



[www.powysrpb.org](http://www.powysrpb.org)

## THERAPI CELF DEMENTIA



Lansiwyd Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan ym mis Mawrth 2021 yn dilyn ymgynghoriad â phobl sy'n byw gyda dementia ledled Cymru, er mwyn canfod beth fyddai'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w gofal.

ThMae Rheolwr Prosiect Dementia yr RPB a'r Nyrs Arweiniol Dementia ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi gweithio i gyflwyno'r Safonau, gan sefydlu grwpiau gorchwyl gan gynnwys pobl sy'n byw gyda dementia a gofalwyr, i symud ymlaen â gwaith y Safonau ym Mhowys.

Yn gysylltiedig â'r gwaith hwn ariannodd yr RPB raglen celfyddydau dementia ym Mhowys ac mae gwerthusiad diweddar o'r rhaglen yn tynnu sylw at fanteision Therapi Celfyddydau i'r rhai sydd wedi derbyn diagnosis o ddementia.

Mae'r artist lleol Frances Isaac yn byw ger Aberhonddu ac yn arwain y grŵp. Roeddent yn cyfarfod yn rhithiol ar lein drwy gydol y pandemig a hefyd bob pythefnos yng Nghrughywel drwy gydol y gwanwyn a'r haf eleni.



Mae Frances yn gysylltiedig â gwaith y grŵp Gorchwyl Dementia ym Mhowys ac mae ei chyfraniad yn amhrisiadwy wrth wneud gwelliannau mewn gofal dementia.

Gallwch glywed Frances yn siarad am bŵer celf i'w chefnogi hi a'i myfyrwyr sy'n byw gyda dementia. Gallwch ei wyllo [yma](#)

Bwrdd Partneriaeth  
Ranbarthol Powys  
Iechyd a Gofal  
Cymdeithasol



Powys Regional  
Partnership Board  
Health and  
Social Care



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government